**PWYSIG - GALL YR OHEBIAETH HON EFFEITHIO AR EICH EIDDO**

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (COED) 1999

**Cyngor Sir Ddinbych**
**(Tref Dinbych)**
**Gorchymyn Diogelu Coed Rhif: 9(2025)**
**Tir gyferbyn Cwm Tawel, Llandyrnog**

MAE HWN YN HYSBYSIAD FFURFIOL i roi gwybod i chi y bu i Gyngor Sir Ddinbych wneud y gorchymyn diogelu coed uchod ar 16fed Ebrill 2025.

Mae copi o'r gorchymyn ynghlwm. Yn syml, mae'r Gorchymyn yn gwahardd neb rhag torri, brigdorri na brigdocio unrhyw rai o'r coed a ddisgrifir yn Atodlen Gyntaf y gorchymyn ac a ddangosir ar y map, heb ganiatâd y Cyngor.

Ceir gwybodaeth esboniadol am orchmynion diogelu coed yn y daflen amgaeedig, *Coed wedi'u Gwarchod*, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru ac sydd hefyd ar gael ar ffurf electronig yma:-

https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-09/protected-trees-a-guide-to-tree-preservation-procedures.pdf

Mae'r Cyngor wedi gwneud y gorchymyn gan fod y goed yn amlwg iawn yn y tirlun lleol ac mae'n werthfawr iawn i'r ardal o ran amwynder, bioamrywiaeth a hanes. Credir bod y goeden hon mewn perygl ac yn haeddu cael ei gwarchod yn ffurfiol gan Orchymyn Diogelu Coed.

Daeth y gorchymyn i rym ar sail dros dro ar 16fed Ebrill 2025. Bydd yn dal mewn grym ar y sail honno am chwe mis arall neu nes bydd y Cyngor yn cadarnhau'r Gorchymyn, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

Bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid cadarnhau'r gorchymyn ai peidio, hynny yw, a ddylid ei roi ar waith yn ffurfiol. Cyn y gwneir y penderfyniad hwn, mae gan y bobl y mae'r gorchymyn yn effeithio arnynt hawl i wrthwynebu neu wneud sylwadau eraill am unrhyw goed, grwpiau o goed neu goedwigoedd sy'n destun y gorchymyn.

Os hoffech chi wrthwynebu neu wneud unrhyw sylwadau eraill, gwnewch hynny'n ysgrifenedig gan sicrhau ein bod yn eu derbyn erbyn 28fed Mai 2025. Rhaid i'ch sylwadau gydymffurfio â rheoliad 4 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999; mae copi ohono dros y dudalen. Anfonwch eich sylwadau i planning@denbighshire.gov.uk Bydd yr holl wrthwynebiadau neu sylwadau sy'n cydymffurfio â Rheoliad 4 yn cael eu hystyried yn ofalus cyn y gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid cadarnhau'r gorchymyn neu beidio.

Bydd y Cyngor yn cysylltu â chi eto pan fydd y penderfyniad hwnnw wedi'i wneud. Yn y cyfamser, os hoffech chi ragor o wybodaeth, neu os oes gennych chi gwestiynau ynghylch y llythyr hwn, e-bostiwch planning@denbighshire.gov.uk.

**Dyddiedig**: 16fed Ebrill 2025

**Llofnodwyd:** CRoberts

Catrin Roberts
Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol Pobl
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun.
Sir Ddinbych,
LL15 1YN

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English*

**PWYSIG - GALL YR OHEBIAETH HON EFFEITHIO AR EICH EIDDO**

**COPI O REOLIAD 4 O REOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (COED) 1999**

*Gwrthwynebiadau a sylwadau*

*4(1) Yn amodol ar baragraff (2), dylid cyflwyno gwrthwynebiadau a sylwadau -*

*(a) Yn ysgrifenedig a'u -*


*(i) cyflwyno i'r awdurdod heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir ganddynt dan reoliad 3(2)(c); neu*

*(ii) eu hanfon i'r awdurdod mewn amlen ragdaledig i'r cyfeiriad cywir gan sicrhau y byddant, yn nhrefn arferol y post, yn cyrraedd erbyn y dyddiad a nodir a dim hwyrach;*

*(b) Gan nodi'r coed, y grwpiau o goed neu'r coetiroedd penodol (fel y bo'n berthnasol) y mae a wnelo'ch gwrthwynebiadau neu'ch sylwadau â hwy; ac*

*(c) Yn achos gwrthwynebiad, datgan y rhesymau dros y gwrthwynebiad.*

4(2) Caiff yr awdurdod drin gwrthwynebiadau a sylwadau a gyflwynwyd mewn pryd nad ydynt yn bodloni gofynion paragraff (1) os ydynt, yn yr achos arbennig hwnnw, yn fodlon na ellid disgwyl cydymffurfio â'r gofynion hynny yn rhesymol.




| | |
|---|---|
| Scale | 1: 757 |
| Date | 04/12/2024 |

sir ddinbych denbighshire

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000819894© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000819894

DYDDIEDIG: 16fed Ebrill 2025

---

**RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (COED) 1999**
**GORCHYMYN CADW COED**

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**
**Cyngor Sir Ddinbych**
**(Tref Dinbych)**

# Gorchymyn Cadw Coed Rhif 9(2025)
# Tir gyferbyn Cwm Tawel, Llandyrnog

**Catrin Roberts**
**Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol Pobl**
**Cyngor Sir Ddinbych**
**Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun.**
**Sir Ddinbych, LL15 1YN**

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English*

**RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (COED) 1999**
**GORCHYMYN CADW COED**

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**

# Cyngor Sir Ddinbych (Tref Dinbych) Gorchymyn Cadw Coed Rhif 9(2025)

Mae Cyngor Sir Ddinbych, wrth arfer y pwerau a roddir iddo o dan adrannau 198, 201 a 203 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

## Enwi

1. Gellir galw'r Gorchymyn hwn yn Orchymyn Cadw Coed Cyngor Sir Ddinbych (Tref Dinbych) Rhif: 9(2025).

## Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "yr awdurdod" yw Cyngor Sir Ddinbych ac oni fydd y cyd-destun yn dangos fel arall, bydd unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at adran wedi'i rhifo yn cyfeirio at yr adran o'r un rhif yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

## Gweithredu adran 201

3. Mae'r Awdurdod drwy hyn yn cyfarwyddo y bydd adran 201 (gorchmynion cadw coed dros dro) yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn ac, yn unol â hynny, daw'r Gorchymyn hwn i rym dros dro ar 16fed Ebrill 2025.

## Gweithredoedd gwaharddedig mewn perthynas â choed

4. Heb leihau effaith is-adrannau (6) a (7) adran 198 (pŵer i wneud gorchmynion cadw coed) [1]ac yn amodol ar erthygl 5, ni chaiff unrhyw un

   a. dorri, brigdorri, brigdocio, dadwreiddio, difrodi'n fwriadol neu ddinistrio'n fwriadol; nac

   b. achosi neu ganiatáu torri, brigdorri, brigdocio, dadwreiddio, difrodi'n fwriadol neu ddinistrio'n fwriadol,

unrhyw goeden a enwir yn Atodlen 1 y Gorchymyn hwn neu sy'n rhan o grŵp o goed neu mewn coetir a nodir yn yr Atodlen, oni bai fod hynny gyda chaniatâd yr Awdurdod ac, os gosodir amodau ar ganiatâd o'r fath, yn unol â'r amodau hynny.

---

1 Mae isadran (6) adran 198 yn eithrio o effaith gorchmynion diogelu coed y gwaith o dorri, dadwreiddio, brigdorri neu frigdocio coed sy'n marw, sydd wedi marw neu sydd wedi mynd yn beryglus, neu ymgymryd â'r gweithredoedd hynny wrth gydymffurfio â rhwymedigaethau a bennwyd drwy neu o dan Ddeddf Seneddol neu cyn belled â bod hynny'n angenrheidiol er mwyn atal neu leihau niwsans. Mae isadran (7) yr adran honno'n gwneud adran 198 yn ddarostyngedig i adran 39(2) Deddf Tai a Chynllunio 1986 ac adran 14 Deddf Coedwigaeth 1967.

**Eithriadau**

5. (1) Ni fydd unrhyw beth yn erthygl 4 yn atal:-

(a) torri, brigdorri, brigdocio neu ddadwreiddio coeden gan neu ar gais ymgymerydd statudol, lle mae'r tir y mae'r goeden yn sefyll arno'n dir gweithredol yr ymgymerydd statudol ac mae'r gwaith yn angenrheidiol

(i) er mwyn gweithrediad diogel yr ymgymeriad;

(ii) mewn perthynas ag archwilio, trwsio neu adnewyddu unrhyw garthffosydd, prif bibellau dŵr, pibellau, ceblau neu unrhyw gyfarpar arall sy'n eiddo i'r ymgymerydd statudol; neu

(iii) er mwyn galluogi'r ymgymerydd statudol i gyflawni datblygiad a ganiateir gan neu o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995;

(aa) torri, brigdorri, brigdocio neu ddadwreiddio coeden lle mae'r gwaith hwnnw'n ofynnol er mwyn gallu gweithredu gorchymyn a wnaed neu a gadarnhawyd dan baragraff 8(1) neu baragraff 15(1) Atodlen 1 Deddf Priffyrdd 1980 (gweithdrefnau ar gyfer gwneud neu gadarnhau rhai gorchmynion a chynlluniau penodol);

(ab) torri, brigdorri, brigdocio neu ddadwreiddio coeden lle mae angen gwneud y gwaith ar frys at ddibenion diogelwch gwladol;

(b) torri, brigdorri, brigdocio neu ddadwreiddio coeden a dyfwyd er mwyn cynhyrchu ffrwythau wrth weithredu busnes neu fasnach lle mae gwaith o'r fath er budd y busnes neu'r fasnach honno;

(c) tocio, yn unol ag arferion garddwriaethol da, unrhyw goeden a dyfwyd er mwyn cynhyrchu ffrwythau;

(d) torri, brigdorri, brigdocio neu ddadwreiddio coeden lle mae'r gwaith hwnnw'n ofynnol er mwyn galluogi unigolyn i weithredu caniatâd cynllunio (ac eithrio caniatâd cynllunio amlinellol neu, heb leihau effaith paragraff (a)(iii), caniatâd a roddwyd gan neu o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995) a roddwyd ar gyfer cais o dan Ran III y Ddeddf, neu yr ystyrir iddo fod wedi'i roi (boed hynny er ddibenion y Rhan honno neu beidio);

(e) torri, brigdorri, brigdocio neu ddadwreiddio coeden gan neu ar gais cyfoeth naturiol Cymru er mwyn galluogi'r Asiantaeth honno i gyflawni datblygiad a ganiateir gan neu o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995;

(f) torri, brigdorri, brigdocio neu ddadwreiddio coeden gan neu ar gais corff draenio, lle mae'r goeden honno'n tarfu, neu'n debygol o darfu, ar weithredu unrhyw rai o swyddogaethau'r corff hwnnw mewn perthynas â chynnal a chadw, gwella neu adeiladu cyrsiau dŵr, neu waith draenio, ac at y diben hwn bydd gan "corff draenio" a "draenio" yr un ystyr ag yn Neddf Draenio Tir 1991; neu

(g) heb leihau effaith adran 198(6)(b), torri neu frigdocio coeden neu docio ei gwreiddiau gan neu ar gais deiliad trwydded dan baragraff 9 Atodlen 4 Deddf Trydan 1989, neu'n unol â hysbysiad a gyflwynwyd gan y deiliad hwnnw.

(2) Ym mharagraff (1), mae "ymgymerydd statudol" yn golygu unrhyw un o'r canlynol

(a) unigolyn a awdurdodwyd dan unrhyw ddeddfiad i gyflawni unrhyw ymgymeriad mewn perthynas â rheilffordd, rheilffordd gul, tramffordd, cludiant ar ffordd, cludiant ar ddŵr, camlas, mordwyaeth fewndirol, doc, porthladd, pier neu oleudy, neu unrhyw ymgymeriad ar gyfer cyflenwi pŵer hydrolig,

(b) gweithredwr maes awyr perthnasol (o fewn yr ystyr a geir yn Rhan V Deddf Meysydd Awyr 1986),

(c) deiliad trwydded dan adran 6 Deddf Trydan 1989,

(d) cludwr nwy cyhoeddus,

(e) deiliad trwydded dan adran 7 Deddf Telathrebu 1984, y mae'r cod telathrebu (yn unol ag ystyr y Ddeddf honno) yn berthnasol iddo,

(f) ymgymerwr carthffosiaeth neu ddŵr,

(g) yr Awdurdod Hedfan Sifil neu gorff sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod hwnnw,

(h) Swyddfa'r Post.

## Ceisiadau am ganiatâd o dan y Gorchymyn

6. Rhaid i unrhyw gais am ganiatâd i dorri, brigdorri, brigdocio neu ddadwreiddio unrhyw goeden sy'n destun y Gorchymyn hwn am y tro gael ei wneud yn ysgrifenedig i'r awdurdod, a bydd yn

(a) nodi'r goeden neu'r coed sy'n destun y cais (os oes angen, drwy gyfeirio at gynllun);

(b) rhoi manylion y gwaith y ceisir caniatâd ar ei gyfer; ac yn

(c) cynnwys datganiad o resymau'r ymgeisydd dros wneud y cais.

**Gweithredu darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**

7. (1) Bydd darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 sy'n ymwneud â chofrestrau, ceisiadau, caniatâd ac apeliadau y sonnir amdanynt yng ngholofn (1) Rhan I Atodlen 2 y Gorchymyn hwn, yn weithredol mewn perthynas â chaniatâd o dan y Gorchymyn hwn a cheisiadau am ganiatâd o'r fath, yn amodol ar yr addasiadau hynny y sonnir amdanynt yng ngholofn (2).

(2) Mae'r darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1), fel y'u haddaswyd, wedi'u nodi yn Rhan II yr Atodlen honno.

**Cyfarwyddiadau ynghylch ailblannu**

8. (1) Lle rhoddir caniatâd o dan y Gorchymyn hwn i dorri unrhyw ran o ardal o goetir wrth gynnal gweithrediadau coedwigaeth, gall yr awdurdod roi i berchennog y tir y mae'r rhan honno yn sefyll arno ("y tir perthnasol") gyfarwyddyd ysgrifenedig yn manylu'r dull y caiff y perchennog hwnnw'n ei ddefnyddio i ailblannu'r tir perthnasol, a'r cyfnod amser y caiff wneud hynny o'i fewn.

(2) Lle rhoddir cyfarwyddyd o dan baragraff (1) a bod coed ar y tir perthnasol yn cael eu cwympo (yn unol â'r caniatâd), bydd perchennog y tir hwnnw'n ei ailblannu'n unol â'r cyfarwyddyd.

(3) Gall cyfarwyddyd o dan baragraff (1) gynnwys gofynion ynghylch

(a) rhywogaeth;

(b) nifer y coed fesul hectar;

(c) paratoi'r tir perthnasol cyn ailblannu; a

(d) chodi ffensys sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r coed sydd newydd eu plannu.

**Iawndal**

9. (1) Os bydd unigolyn, wrth wneud hawliad o dan yr erthygl hon, yn profi yr achoswyd neu y cafwyd colled neu ddifrod o ganlyniad i

(a) wrthod unrhyw ganiatâd sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn hwn; neu

(b) roi unrhyw ganiatâd o'r fath gydag amodau,

bydd gan yr unigolyn hwnnw, yn amodol ar baragraffau (3) a (4), hawl i dderbyn iawndal gan yr awdurdod.

(2) Ac eithrio hawliad a wneir o dan baragraff (3), ni ellir gwneud unrhyw hawliad o dan yr erthygl hon,

(a) os oes mwy na 12 mis wedi mynd heibio ers dyddiad penderfyniad yr awdurdod neu, os bu'r penderfyniad hwnnw'n

destun apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol, dyddiad y penderfyniad terfynol ynghylch yr apêl; neu

(b) os yw swm yr hawliad a fyddai wedi'i wneud fel arall yn llai na £500.

(3) Pan fo'r awdurdod yn gwrthod caniatâd o dan y Gorchymyn hwn ar gyfer torri unrhyw ran o ardal goetir wrth gynnal gweithrediadau coedwigaeth, ni fydd yn ofynnol iddo dalu iawndal i unrhyw un ac eithrio perchennog y tir; a bydd iawndal o'r fath yn gyfyngedig i swm sy'n hafal i unrhyw ddibrisiad yng ngwerth y coed y gellir ei briodoli i ddirywiad yn ansawdd y coed o ganlyniad i wrthod caniatâd.

(4) Mewn unrhyw achos arall, ni fydd unrhyw iawndal yn daladwy i unrhyw unigolyn

(a) am golli gwerth datblygu neu unrhyw ostyngiad arall yng ngwerth y tir;

(b) am golled neu ddifrod nad oedd, o ystyried y datganiad o resymau a gyflwynwyd yn unol ag erthygl 6(c) ac unrhyw ddogfennau neu dystiolaeth arall a gyflwynwyd i ategu unrhyw ddatganiad o'r fath, yn rhesymol ei ragweld pan wrthodwyd caniatâd neu roi caniatâd gydag amodau;

(c) am golled neu ddifrod y byddai'n rhesymol i'r unigolyn hwnnw fod wedi'i ragweld ac y gellid ei briodoli i'w fethiant i gymryd camau rhesymol i osgoi'r golled neu'r difrod neu leihau ei faint; neu

(d) am gostau a ysgwyddir wrth gyflwyno apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol yn erbyn gwrthod unrhyw ganiatâd sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn hwn neu roi unrhyw ganiatâd o'r fath gydag amodau.

(5) Bydd isadrannau (3) i (5) adran 11 (telerau iawndal os gwrthodir trwydded) Deddf Coedwigaeth 1967 yn berthnasol wrth asesu iawndal o dan baragraff (3) fel y bo'n berthnasol i asesu iawndal os gwrthodir trwydded cwympo coed o dan adran 10 (cais am drwydded cwympo coed a phenderfyniad y Comisiynwyr yn ei gylch) y Ddeddf honno, fel pe disodlid unrhyw gyfeiriad ynddi at drwydded cwympo coed gan gyfeiriad at ganiatâd sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn hwn, ac fel pe disodlid unrhyw gyfeiriad at y Comisiynwyr gan gyfeiriad at yr awdurdod.

(6) Yn yr erthygl hon

ystyr "gwerth datblygu" yw cynnydd yn y gwerth y gellir ei briodoli i'r posibilrwydd o ddatblygu; ac, mewn perthynas ag unrhyw dir, y bydd ei ddatblygu yn cynnwys ei glirio; ac

ystyr "perchennog" yw'r ystyr a roddir iddo yn adran 34 Deddf Coedwigaeth 1967.

Dyddiedig 16fed Ebrill 2025

7404

Rhoddwyd Sêl Gyffredin )
**CYNGOR SIR DDINBYCH**
ar hyn ym mhresenoldeb: )

Llofnodwr Awdurdodedig ............................................

# ATODLEN 1

## MANYLION Y COED
## Gorchymyn Cadw Coed Rhif 9(2025)

| Coed a nodir yn unigol (â chylch du o'u hamgylch ar y map) | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfeirnod ar y Map | Disgrifiad | Sefyllfa | |
| | | Dwyreiniadau | Gogleddiadau |
| T1 | **Oak** (Quercus Spp.) | 310894 | 364845 |

| Grwpiau o Goed (o fewn llinell doredig ddu ar y map) | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfeirnod ar y Map | Disgrifiad | Sefyllfa | |
| | | | |

| Coetiroedd (o fewn llinell solet ddu ar y map) | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

| Cyfeiriad at Ardal (o fewn llinell smotiog ddu ar y map) |
|---|
| Pob coeden dail llydan a chonwydd ar y safle |

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English*

# ATODLEN 2

RHAN 1
DARPARIAETHAU DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990
WEDI'U GWEITHREDU AG ADDASIADAU

| Darpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 | Addasiadau |
|---|---|
| **Adran 69** (cofrestrau) | (a) Yn isadran (1)<br>i. hepgor<br>*", in such manner as may be prescribed by a development order,"*<br>*"such"* yn yr ail le y mae'n ymddangos; ac<br>*"as may be so prescribed"*; a<br>ii. Rhoi *"matters relevant to tree preservation orders made by the Authority"* yn lle *"applications for planning permission"*.<br>(b) Yn isadran (2)<br>i. Ar ôl *"contain"* mewnosod *", as regards each such order"*; ac<br>ii. Yn lle paragraffau (a) a (b), rhoi<br>(a) Details of every application under the order and of the Authority's decision (if any) in relation to each such application, ac<br>(b) A statement as to the subject matter of every appeal under the order and of the date and nature of the Secretary of State's determination of it.<br>(c) Hepgor isadrannau (3) a (4) (fel sy'n ofynnol o dan Adran 198(4)). |
| **Adran 70** (penderfynu ceisiadau: ystyriaethau cyffredinol) | (a) Yn isadran (1)<br>i. rhoi<br>*"Subject to sub-sections (1A) and (1B), where"* yn lle *"Where"*;<br>*"the Authority"* yn lle *"a local planning authority"*;<br>*"consent under a tree preservation order"* yn lle *"planning permission"* lle mae'r geiriau hynny'n ymddangos gyntaf; a<br>*"consent under the order"* yn lle *"planning permission"* yn y ddau le arall y mae'r geiriau hynny'n ymddangos;<br>ii. Ar ôl "think fit", mewnosod |

| | |
|---|---|
| **Adran 70** ***parhad*** (penderfynu ceisiadau: ystyriaethau cyffredinol) | *"(including conditions limiting the duration of the consent or requiring the replacement of trees)"*; a<br><br>iii Hepgor *"subject to Section 91 and 92,"*<br><br>(b) Ar ôl is-adran (1), mewnosod<br><br>*"(1A) - Where an application relates to an area of woodland, the Authority shall grant consent so far as accords with the practice of good forestry, unless they are satisfied that the granting of consent would fail to secure the maintenance of the special character of the woodland or the woodland character of the area."*<br><br>*"(1B) - Where the Authority grant consent for the felling of trees in a woodland area they shall not impose conditions requiring replacement where such felling is carried out in the course of forestry operations (but may give directions for securing replanting)"*.<br><br>(c) Hepgor isadrannau (2) a (3). |
| **Adran 75** (effaith caniatâd cynllunio) | (a) Yn is-adran (1), rhoi _____<br><br>i *"Any"* yn lle'r geiriau rhwng *"Without"* ac *"any"*;<br><br>ii. *"consent under a Tree Preservation Order"* yn lle *"planning permission to develop land"*;<br><br>iii *"the consent"* yn lle *"the permission"*; a<br><br>iv. *"the land to which the Order relates"* yn lle *"the land"*.<br><br>(b) Hepgor isadrannau (2) a (3). |
| **Adran 78** (hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cynllunio a methiant i wneud penderfyniadau o'r fath) | (a) Yn isadran (1) rhoi _____<br><br>i *"the Authority"* yn lle *"a local planning authority"*;<br><br>ii. *"consent under a Tree Preservation Order"* yn lle *"planning permission"* lle mae'r geiriau hynny'n ymddangos gyntaf;<br><br>iii *"consent under such an Order"* yn lle *"planning permission"* yn yr ail le y mae'r geiriau hynny'n ymddangos;<br><br>iv. Yn lle paragraff (c), rhoi<br><br>*"(c) give a direction under a Tree Preservation Order, or refuse an application for any consent, agreement or approval of that Authority required by such a direction; or*<br><br>*(d) fail to determine any such application as is referred to in paragraphs (a) to (c) within the period of 8 weeks beginning with the date on which the application was received by the Authority"*. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Adran 78** ***parhad***<br>(hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cynllunio a methiant i wneud penderfyniadau o'r fath) | (b) Hepgor isadran (2).<br><br>(c) Yn is-adran (3) yn lle *"served within such time and in such manner as may be prescribed by a Development Order"*, rhoi:<br><br>*"in writing addressed to the Secretary of State, specifying the grounds on which the appeal is made; and such Notice shall be served.*<br><br>*(a) in respect of a matter mentioned in any of paragraphs (a) to (c) of sub-section (1), within the period of 28 days from the receipt of notification of the Authority's decision or direction or within such longer period as the Secretary of State may allow;*<br><br>*(b) in respect of such a failure as is mentioned in paragraph (d) of that sub-section, at any time after the expiration of the period mentioned in that paragraph, but if the Authority have informed the applicant that the application has been refused, or granted subject to conditions, before an appeal has been made, an appeal may only be made against that refusal or grant".*<br><br>(d) Yn lle is-adran (4) rhoi _____<br><br>*"(4) The Appellant shall serve on the Authority a copy of the Notice mentioned in sub-section (3)".*<br><br>(e) Yn lle isadran (5) rhoi _____<br><br>*"(5) For the purposes of the application of section 79(1), in relation to an appeal made under sub-section (1)(d), it shall be assumed that the Authority decided to refuse the application in question".* |
| **Adran 79**<br>(penderfynu apeliadau) | (a) Yn isadrannau (1) a (2), rhoi *"the Authority"* yn lle *"the local planning authority".*<br><br>(b) Hepgor isadran (3).<br><br>(c) Yn is-adran (4) rhoi _____<br><br>i *"section 70(1), (1A) and (1B)"* yn lle *"sections 70, 72(1) and (5), 73 and 73A and Part I of Schedule 5".*<br><br>ii. *"consent under a Tree Preservation Order"* yn lle *"planning permission"*; a<br><br>iii *"the Authority"* yn lle *"the local planning authority and a Development Order may apply, with or without modifications, to such an appeal any requirements imposed by a Development Order by virtue of sections 65 or 71".*<br><br>(d) Hepgor isadrannau (6) a (6A).<br><br>(e) Yn is-adran (7), hepgor y geiriau a ddaw ar ôl *"Section 78".* |

| | |
|---|---|
| | |

RHAN II
DARPARIAETHAU DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990,
FEL Y'U HADDASWYD GAN RAN 1

Bydd darpariaethau canlynol Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'u haddaswyd gan Ran I yr Atodlen hon, yn berthnasol i ganiatâd, a cheisiadau am ganiatâd, o dan y Gorchymyn hwn.

**Adran 69**

(1) Bydd pob awdurdod cynllunio lleol yn cadw cofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â materion sy'n berthnasol i Orchmynion Cadw Coed y mae'r Awdurdod wedi'u gwneud.

(2) Bydd y gofrestr yn cynnwys, ar gyfer pob Gorchymyn o'r fath:

a. Manylion pob cais a wnaed o dan y Gorchymyn a phenderfyniad yr Awdurdod (os gwnaed un) ynghylch pob un o'r cyfryw geisiadau; a

b. Datganiad ynghylch testun pob apêl a wnaed o dan y Gorchymyn ynghyd â dyddiad a natur penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei gylch.

1(5) Dylai pob cofrestr a gedwir o dan yr adran hon fod ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio yn ystod oriau rhesymol.

(1) Yn amodol ar isadrannau (1A) ac (1B), lle gwneir cais i'r Awdurdod am ganiatâd o dan Orchymyn Cadw Coed

(a) gall yr Awdurdod roi caniatâd o dan y Gorchymyn, naill ai'n ddiamod neu gyda pha amodau bynnag y gwêl yn briodol (gan gynnwys amodau sy'n cyfyngu ar gyfnod y caniatâd neu sy'n gofyn am blannu coed newydd yn lle rhai a gaiff eu torri); neu

(b) gall yr Awdurdod wrthod caniatâd o dan y Gorchymyn.

(1A) Pan fo cais yn ymwneud ag ardal o goetir, bydd yr Awdurdod yn rhoi caniatâd cyn belled â bo hynny'n cyd-fynd ag arferion coedwigaeth da, onid ydynt yn fodlon y byddai rhoi caniatâd yn golygu methu â sicrhau bod cymeriad arbennig y coetir neu gymeriad coetir yr ardal yn cael ei gadw.

(1B) Pan fo'r Awdurdod yn rhoi caniatâd i gwympo coed mewn ardal o goetir, ni fydd yn gosod amodau sy'n mynnu bod angen plannu coed newydd os caiff y coed eu cwympo fel rhan o weithrediadau coedwigaeth (ond gall roi cyfarwyddiadau ynglŷn â sicrhau ail-blannu).

**Adran 75**

Bydd unrhyw ganiatâd a roddir o dan Orchymyn Cadw Coed (ac eithrio i'r graddau hynny y mae'r caniatâd yn mynnu fel arall) yn sicrhau budd i'r tir y mae'r Gorchymyn yn berthnasol iddo ac i bob unigolyn sydd â buddiant ynddo ar y pryd.

**Adran 78**

(1) Pan fo'r Awdurdod:

(a) yn gwrthod cais am ganiatâd o dan Orchymyn Cadw Coed neu'n rhoi caniatâd gydag amodau;

(b) yn gwrthod cais am unrhyw ganiatâd, cytundeb neu gymeradwyaeth gan yr Awdurdod hwnnw sy'n ofynnol o dan amod a osodwyd ar ganiatâd o dan Orchymyn o'r fath neu'n rhoi caniatâd gydag amodau;

(c) yn rhoi cyfarwyddyd o dan Orchymyn Cadw Coed, neu'n gwrthod cais am unrhyw ganiatâd, cytundeb neu gymeradwyaeth gan yr Awdurdod hwnnw sy'n ofynnol o dan gyfarwyddyd o'r fath; neu

(d) yn methu â phenderfynu ar unrhyw gais o'r math y cyfeirir ato ym mharagraffau (a) i (c) ymhen y cyfnod o 8 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y derbyniodd yr Awdurdod y cais,

Gall yr ymgeisydd, drwy Hysbysiad, wneud apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol.

(3) Rhaid gwneud unrhyw apêl o dan yr adran hon drwy Hysbysiad ysgrifenedig wedi'i gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol, gan roi manylion y sail ar gyfer gwneud yr apêl; a rhaid cyflwyno'r cyfryw Hysbysiad.

(a) mewn perthynas ag unrhyw fater y sonnir amdano yn unrhyw un o'r paragraffau o (a) i (c) yn is-adran (1), o fewn y cyfnod o 28 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad o benderfyniad neu gyfarwyddyd yr Awdurdod, neu o fewn unrhyw gyfnod hwy y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ei ganiatáu;

(b) mewn perthynas ag unrhyw fethiant fel yr hyn y sonnir amdano ym mharagraff (d) yr is-adran honno, ar unrhyw adeg wedi terfyn y cyfnod y sonnir amdano yn y paragraff hwnnw, ond os yw'r Awdurdod wedi hysbysu'r ymgeisydd y gwrthodwyd y cais, neu ei fod wedi'i ganiatáu gydag amodau, cyn gwneud unrhyw apêl, ni ellir gwneud apêl ond yn erbyn y gwrthodiad neu'r caniatâd hwnnw.

(4) Bydd yr Apelydd yn cyflwyno i'r Awdurdod gopi o'r Hysbysiad y sonnir amdano yn isadran (3).

(5) At ddibenion gweithredu adran 79(1), mewn perthynas ag apêl a wnaed o dan is-adran (1)(d), tybir fod yr Awdurdod wedi penderfynu gwrthod y cais dan sylw.

**Adran 79**

(1) Pan wneir apêl o dan adran 78, gall yr Ysgrifennydd Gwladol:

(a) ganiatáu neu wrthod yr apêl, neu


(b) wrthdroi neu amrywio unrhyw ran o benderfyniad yr Awdurdod (boed a wnelo'r apêl â'r rhan honno neu beidio)

A gall ymdrin â'r cais fel pe bai wedi'i gyflwyno iddo ef yn y lle cyntaf.

(2) Cyn penderfynu ar apêl o dan adran 78, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, os yw naill ai'r Apelydd neu'r Awdurdod yn dymuno hynny, yn rhoi cyfle i'r naill ochr a'r llall ymddangos gerbron a chael eu clywed gan unigolyn a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol at y diben.

(4) Yn amodol ar isadran (2), bydd darpariaethau adran 70(1), (1A) ac (1B) yn berthnasol, gan gynnwys unrhyw addasiadau angenrheidiol, mewn perthynas ag apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol onid yw adran 78 yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw gais am ganiatâd o dan Orchymyn Cadw Coed y mae'r Awdurdod yn methu â phenderfynu arno.

(5) Bydd penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol am unrhyw apêl o'r fath yn derfynol.




sir ddinbych
denbighshire

| | |
|---|---|
| Scale | 1: 757 |
| Date | 04/12/2024 |

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans AC0000819894© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey AC0000819894